Pwyllgor Cynghori Cymru

Cylch Gorchwyl

Cyffredinol

Mae Pwyllgor Cynghori Cymru yn un o dri Phwyllgor Cynghori'r Gwledydd - yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon - sy'n cyfrannu tuag at y gwaith o ddatblygu amcanion strategol a blaenoriaethau corfforaethol y British Council ac adlewyrchu anghenion cymunedau targed y British Council yng Nghymru. Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am ei ffurfio a'i derfynu.

Mae Pwyllgor Cynghori Cymru yn fforwm sy'n rhoi cyngor ac nid oes ganddo unrhyw bwerau i wneud penderfyniadau na phwerau gweithredol. Rôl y Pwyllgor yw rhoi cyngor a syniadau ffres i'r Cyfarwyddwr Gwlad perthnasol. Gall y Pwyllgor hefyd dynnu problemau sylweddol at sylw'r Bwrdd Rheoli a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, drwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol y DU a'r Cadeirydd Pwyllgor y wlad enwebedig sy'n eistedd ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Diben

Mae Pwyllgor Cynghori Cymru yn rhoi cyngor i Gyfarwyddwr Cymru, yn cyfrannu tuag at y gwaith o ddatblygu amcanion strategol a blaenoriaethau corfforaethol y British Council ar ran Cymru ac yn adlewyrchu anghenion cymunedau targed y British Council yng Nghymru.

Amcanion

- Cynorthwyo'r British Council gyda'i genhadaeth i greu ‘gwybodaeth a dealltwriaeth gyfeillgar’ rhwng pobl y DU a'r byd ehangach, mewn cydweithrediad â Chyfarwyddwr Cymru ac yng nghyd-destun gwaith y British Council yng Nghymru
- Bod yn eiriolwyr dros waith y British Council yng Nghymru ac yn y DU yn gyffredinol
- Rhoi cyngor ar y gwaith o ddatblygu strategaeth y British Council
- Sicrhau y rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i British Council Cymru am ddatblygiadau mawr ym mywyd cyhoeddus, addysgol, economaidd a diwylliannol Cymru
- Bod yn sianel cyngor proffesiynol yn y meysydd arbenigedd a gynrychiolir ar y Pwyllgor, cynnig syniadau ffres a nodi cyfleoedd newydd
- Creu cysylltiadau â chymunedau yng Nghymru y mae gwaith y British Council yn berthnasol iddynt yn benodol

Aelodaeth

- Bydd Pwyllgor Cynghori Cymru yn cynnwys uchafswm o bymtheg o aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd
- Bydd y Cadeirydd a'r aelodau yn cael eu penodi am gyfnod o dair blynedd, a gellir adnewyddu eu haelodaeth unwaith am dair blynedd ychwanegol
- Bydd y Cyfarwyddwr Gwlad yn gweithredu fel Ysgrifennydd ond nid yw'n aelod
- Gwahoddir Cyfarwyddwr Rhanbarthol y DU i fynychu pob cyfarfod ond nid yw'n aelod
- Cedwir rhwng un a thri lle ar y Pwyllgor ar gyfer gweision sifil sy'n cynrychioli meysydd datganoledig allweddol (addysg, diwylliant, materion allanol a/neu ddatblygu economaidd fel arfer)
- Nod y British Council yw sicrhau amrywiaeth o brofiad a gwybodaeth gyflenwol ar draws Pwyllgor Cynghori Cymru a sicrhau bod y Pwyllgor yn adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas Cymru
- Caiff aelodau a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori Cymru eu recriwtio drwy broses agored a thryloyw ac nid chânt gydnabyddiaeth

Cyfarfodydd

- Bydd Pwyllgor Cynghori Cymru yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn fel arfer (ac efallai cynhelir diwrnod cwrdd i ffwrdd). Mae nifer y cyfarfodydd a gynhelir yn ôl disgresiwn yr Ysgrifennydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd
- Rhoddir rhestr o ddyddiadau'r cyfarfodydd i'r Pwyllgor ynghyd â blaengynllun o eitemau'r agenda.
- Dylai'r Ysgrifennydd sicrhau yr ymgynghorir â'r Pwyllgor yn ystod y broses cynllunio strategol corfforaethol
- Dylid anfon y papurau o leiaf wythnos cyn pob cyfarfod
- Ar ôl pob cyfarfod, bydd yr Ysgrifennydd yn paratoi'r cofnodion a bydd y Cadeirydd yn eu cymeradwyo, cyn y cânt iddynt gael eu hanfon at yr aelodau, ddim hwyrach na mis ar ôl y cyfarfod.
- Unwaith y cânt eu cymeradwyo gan yr aelodau yn y cyfarfod nesaf, adolygir y cofnodion gan yr Ysgrifennydd am unrhyw ddeunydd y gellid ei ystyried fel deunydd eithriedig o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac yna cânt eu cyhoeddi, gydag unrhyw olygiad, ar wefan British Council Cymru gyda dolen o wefan y British Council

Sianeli cyfathrebu

- Yr Ysgrifennydd yw prif dderbynnydd cyngor y Pwyllgor ac ef sy'n gyfrifol am roi adborth i'r Pwyllgor o ran sut mae ei fewnbwn wedi dylanwadu ar ffyrdd o feddwl ar y strategaeth ar gyfer Gymru a'r sefydliad ehangach. Caiff yr adborth ei nodi yn y cofnodion
- Mae gan Bwyllgor Cynghori Cymru fynediad at Fwrdd yr Ymddiriedolwyr drwy ei Gadeirydd, neu Gadeirydd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon neu'r Alban, gan y bydd un ohonynt yn eistedd ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ei dro.
- Mae ganddo gysylltiad â Bwrdd Rheoli'r British Council drwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol y DU sy'n mynd i'w gyfarfodydd
- Cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd yw cynnal cysylltiadau fel y bo'n briodol â phob un o Unedau Busnes Strategol y British Council (Addysg a Chymdeithas, y Celfyddydau, a Saesneg ac Arholiadau) a Grwpiau Cynghori'r Sectorau y British Council. Dylid creu cyfleoedd achlysurol i reolwyr yr Unedau Busnes Strategol ac aelodau Grwpiau Cynghori'r Sectorau i friffio'r Pwyllgor ac i gael eu briffio gan y Pwyllgor

Adolygu

Adolygir Cylch Gorchwyl Pwyllgor Cynghori Cymru o leiaf unwaith y flwyddyn gan Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr mewn ymgynghoriad â'r Ysgrifennydd.